Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gyfun Rhydywaun
## Rhodfa Lawrence
## Penywaun
## Hirwaun
## RCT
## CF44 9ES

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2017**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Gyfun Rhydywaun ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae wedi ei lleoli yn Hirwaun ger Aberdâr a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Agorwyd yr ysgol ym 1995. Ar hyn o bryd, mae 961 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 177 yn y chweched dosbarth, o'i gymharu â 967 o ddisgyblion gyda 195 yn y chweched dosbarth adeg yr arolygiad diwethaf. Derbynnir y rhan mwyaf o ddisgyblion o dair ysgol gynradd a leolir yn Rhondda Cynon Taf ac o ddwy ysgol gynradd a leolir yn Awdurdod Merthyr Tudful. Mae tua hanner y disgyblion yn dod o awdurdod lleol Merthyr Tudful. Mae'r dalgylch yn cynnwys ardal cwm Cynon a Merthyr ac mae nifer cynyddol o ddisgyblion yn dod o ardal Cwm Nedd ym mwrdeistref sirol Castell Nedd Port Talbot.

Mae 13.5% o ddisgyblion yn ysgol yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 17.1%. Mae tua 24% o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth dysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 21% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, gyda llai na 1% o'r disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn is na'r canran cenedlaethol o 2.5%. Mae 26% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2016. Mae'r tîm uwch arwain (TUA) yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a phedwar pennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Rhydywaun yn 2015-2016 yw £4,209 Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf yw £5,455 a'r lleiafswm yw £3,918. Mae Ysgol Gyfun Rhydywaun yn y deuddegfed safle o'r un ar bymtheg o ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol yn y prif dangosyddion wedi gwella am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf
- cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 yn ym mhob un o'r pynciau craidd wedi gwella mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf
- disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn perfformio'n gyson yn uwch nad ydynt mewn ysgolion tebyg eraill
- bron pob disgybl yn arddangos ymagweddau cadarnhaol yn y gwersi ac yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol
- bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn y gwersi, o gwmpas yr ysgol ac mewn gweithgareddau allgyrsiol
- yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i ddatblygu hyder a medrau cymdeithasol y disgyblion
- perthynas waith arbennig o dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion ac mae'r athrawon yn creu amgylchedd dysgu effeithiol
- yr ysgol yn gymuned hapus, gyfeillgar sy'n hybu ethos Cymreig gofalgar, parchus a chynhwysol

Fodd bynnag:

- yng nghyfnod allweddol 4, roedd gostyngiad ym mherfformiad yr ysgol ym mron yr holl ddangosyddion allweddol yn 2015-2016; roedd perfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys y Gymraeg neu Saesneg a mathemateg llawer is na'r deilliannau wedi'u modelu
- mae'r canran o ddisgyblion sy'n ennill 5 gradd A*-A yn anwastad ac yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf
- yn 2015-2016, roedd perfformiad merched yng nghyfnod allweddol 4 yn is na pherfformiad merched yn y teulu o ysgolion tebyg

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir wedi ei seilio ar sicrhau'r cyflawniad a'r cyfleoedd gorau i bob disgybl o fewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg
- caiff y weledigaeth ei chyfathrebu'n effeithiol gan yr uwch dîm arwain a'i choleddu gan holl staff yr ysgol
- gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu a sicrhau gwelliant cadarn

- y defnydd o ddata perfformiad gan arweinyddion er mwyn gosod targedau priodol sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion wedi'i gryfhau
- gan yr ysgol ystod eang iawn o bartneriaethau buddiol sy'n cyfrannu at ehangu profiadau dysgu'r disgyblion a darparu datblygiad proffesiynol gwerthfawr i staff
- cynlluniau manwl a chlir ar waith i wella sefyllfa ariannol yr ysgol ac i waredu'r ddyled sylweddol sydd ganddi ar hyn o bryd
- nid yw'r ysgol yn monitro effeithiolrwydd ychydig o agweddau o'i gwaith tu allan i'r gwersi ffurfiol yn ddigon trwyadl, gan gynnwys trosolwg clir o'r cynnydd a wneir gan disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Cryfhau'r prosesau hunanarfarnu i gynnwys holl waith yr ysgol tu allan i'r gwersi ffurfiol

A3 Cryfhau systemau i sicrhau bod gan yr ysgol drosolwg clir o'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

A4 Dileu'r ddyled ariannol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn y mwyafrif o'r dangosyddion pwysig wedi gwella am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Serch hynny, roedd gostyngiad ym mherfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol yn 2015-2016. Roedd perfformiad yr ysgol yn llawer is na disgwyliadau wedi'u modelu. Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg ac yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn anwastad, ond yn debyg i ddeilliannau wedi'u modelu am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau ar lefel 2 wedi gwella am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 ym mhob un o'r pynciau craidd wedi gwella am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf, ond wedi gostwng yn 2015-2016. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n ennill 5 gradd TGAU A*-A yn anwastad. Mae'r canran yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg am y pedair blynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Serch hynny, yn 2015-2016, roedd bechgyn yn perfformio'n well na'r merched ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol. Yn y dangosyddion allweddol, mae bechgyn yn perfformio'n well na'r bechgyn yn y teulu o ysgolion tebyg. Ar wahân i'r trothwy lefel 2, mae perfformiad merched yn is na pherfformiad merched yn y teulu o ysgolion tebyg.

Ar y cyfan, mae disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn perfformio'n uwch na chyfartaledd yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg eraill ym mhob dangosydd ansawdd.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella bob blwyddyn am bedair blynedd yn olynol. Mae'r perfformiad yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill.

Yn y chweched dosbarth, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 3 yn anwastad ac yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg eraill. Mae'r canran sy'n llwyddo i ennill 3 gradd lefel A neu gymhwyster cyfatebol yn gyson is na chyfartaledd ysgolion tebyg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg ar ôl cyfnod allweddol 4, naill ai yn yr ysgol neu mewn colegau addysg lleol.

Mae bron bob un disgybl yn arddangos ymagwedd gadarnhaol tuag at y dysgu ac yn ymroi'n llwyr i'r gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn y gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n hyderus mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn dosbarthiadau cyfan, yn annibynnol, mewn grwpiau ac mewn parau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau llythrennedd mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn ateb cwestiynau'r athro ar lafar yn hyderus, ac mae ychydig yn cynnig ymatebion ymestynnol. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar yr athro a'u cyfoedion ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn ac yn darllen deunyddiau amrywiol yn ystyrlon. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu hyfedr trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n briodol at ystod eang o bwrpasau gan gynnwys llythyrau, adroddiadau gwyddonol, cyflwyniadau a gwefannau. Fodd bynnag, ceir gwallau iaith sylfaenol yng ngwaith ysgrifenedig tua hanner y disgyblion ar draws yr ystod gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl yn llwyddiannus ac yn eu defnyddio'n briodol i ddatrys problemau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd mewn nifer o bynciau. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ffracsiynau, canrannau a degolion, ac yn eu defnyddio'n addas ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau rhif yn effeithiol mewn sefyllfaoedd bob dydd. Mae llawer o ddisgyblion yn casglu ac yn dadansoddi data yn gywir ac yn llunio graffiau addas i arddangos eu canlyniadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol ar draws y cwricwlwm. Maent yn creu posteri, pamffledi a chyflwyniadau aml-gyfrwng mewn amrywiaeth o bynciau. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio taenlenni yn effeithiol i wahanol bwrpasau ac yn defnyddio'r meddalwedd i greu graffiau addas.

Mae pob disgybl yn cwblhau eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn y gwersi, o gwmpas yr ysgol ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn, mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn dangos parch a chwrteisi tuag at eu cyfoedion, oedolion ac ymwelwyr.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae llawer yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw fwlio.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn dangos patrwm o welliant ac yn gosod yr ysgol ymysg yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae llais y disgybl wedi cael effaith briodol ar agweddau o waith yr ysgol ac maent yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd maent wedi gwella ansawdd yr amgylchedd trwy ychwanegu meinciau a chysgodfeydd o gwmpas y safle. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at benderfyniadau a pholisïau trwy fforymau a phwyllgorau ysgol amrywiol. Fodd bynnag, nid yw barn disgyblion ar ddysgu ac addysgu yn cael digon o effaith ar natur yr arlwy mewn gwersi.

Mae gan lawer o ddysgwyr y medrau angenrheidiol i wella eu dysgu eu hunain ac maent yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd gwerthfawr.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at weithgareddau cymunedol, er enghraifft yn nigwyddiadau coffáu trychineb Aberfan. Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys a chyfleoedd gwerthfawr sy'n diwallu anghenion a diddordebau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig hawl gyfartal i ystod eang o ddewisiadau, lle bo'n berthnasol, yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Ar wahân i Saesneg, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gwblhau eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion statudol.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau lleol, gweithgareddau awyr agored cyson a nifer o ymweliadau addysgol pwrpasol yng Nghymru ac i wledydd tramor.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang iawn o weithgareddau buddiol sydd yn cefnogi datblygiad personol ac academaidd y disgyblion. Er enghraifft, mae darpariaeth gynhwysol ar gyfer disgyblion trwy weithgareddau Gwobr Dug Caeredin. Mae darpariaeth werthfawr ar gyfer disgyblion bregus trwy'r 'Cynllun 6'. Trwy'r cynllunhwn, cynigir gwersi ychwanegol yn y pynciau craidd, cymorth gyda gwaith cartref, sesiynau medrau llythrennedd a rhifedd a chyfleoedd allgyrsiol cynhwysfawr. Mae'r cynllun hwn wedi cyfrannu at y lleihad yn y bwlch perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r garfan lawn.

Mae'r trefniadau creadigol ar gyfer y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion cynradd partner i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau personol wrth i ddisgyblion symud o'r cynradd i'r uwchradd ac wedyn trwy'r ysgol uwchradd.

Darperir cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu'n effeithiol. Mae'r rhaglenni ymyrraeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn briodol.

Mae cryfder y Cwricwlwm Cymreig yn sicrhau bod pob disgybl yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth lwyddiannus o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.  Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol ar draws y cwricwlwm ar gyfer astudio'r amgylchedd lleol a hanes a diwylliant yr ardal.

Mae’r ysgol yn darparu’n briodol i sicrhau ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.  Mae partneriaethau effeithiol wedi eu ffurfio gydag ysgolion yn yr Almaen ac Uganda sy’n ehangu ymwybyddiaeth disgyblion o fywyd tu allan i Gymru.

**Addysgu:  Da**

Mae perthynas waith arbennig o dda rhwng yr athrawon a’r disgyblion.  O ganlyniad, ceir amgylchedd dysgu effeithiol sydd yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd priodol yn y gwersi.  Mae bron pob athro yn fodel iaith da ac yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi’n ofalus, gan gyfleu nodau ac amcanion clir a phwrpasol.  Maent yn cynllunio ystod eang o dasgau diddorol i gynnal diddordeb a chymhelliant disgyblion.  Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio adnoddau deniadol a gweithgareddau sy’n adeiladu’n bwrpasol ar ei gilydd.  Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad disgyblion.  Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw disgwyliadau’r athrawon yn ddigon uchel.  O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y wers.

Yn y rhan fwyaf o’r gwersi, mae athrawon yn defnyddio tasgau cychwynnol pwrpasol i sicrhau cyswllt effeithiol â’r gwaith blaenorol ac i osod sylfaen gadarn i’r wers.  Mae llawer yn amseru gweithgareddau yn briodol er mwyn sicrhau  fod disgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig ac yn cwblhau’r tasgau.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio’n annibynnol ac mewn parau a grwpiau.  Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion  arwain eu dysgu eu hunain.  Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn rhoi gormod o gymorth a chyfarwyddyd i’r disgyblion.  O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn datblygu medrau gweithio’n annibynnol yn y gwersi hyn.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn asesu’r dysgu yn effeithiol yn y gwersi gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau.  Ym mron pob gwers, mae athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth o’r gwaith.  Mewn ychydig o wersi, maent yn ymestyn atebion y disgyblion yn fedrus i gynyddu eu dealltwriaeth.

Mewn llawer o wersi, cynigia'r athrawon adborth llafar defnyddiol ac adeiladol i ddisgyblion.  Mae llawer o athrawon yn cynnig sylwadau buddiol ar waith disgyblion.  Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymateb i sylwadau’r athro a gwella eu hymdrechion.

Mae’r ysgol wedi miniogi ei gweithdrefnau i olrhain cynnydd disgyblion ac i fynd i'r afael ag unrhyw dangyflawniad.  Serch hynny, nid oes digon o amser i arfarnu effaith y gweithdrefnau hyn ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae adroddiadau interim defnyddiol a dealladwy ar gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion yn cael eu rhannu gyda rhieni. Mae targedau buddiol ar gyfer gwella i ddisgyblion yn yr adroddiad llawn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae awyrgylch ofalgar a chyfeillgar yn yr ysgol, sy'n rhoi pwyslais mawr ar les disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus. Cefnogir hyn trwy amrywiaeth eang o weithgareddau yn ystod amser ysgol ac yn allgyrsiol.

Trwy wasanaethau a chyfleoedd rheolaidd i fyfyrio, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn briodol.

Mae gan yr ysgol nifer o systemau cadarn i hyrwyddo lles a datblygiad emosiynol disgyblion. Mae hyn yn elfen gref o waith yr ysgol. Mae'r tîm bugeiliol yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd a gydag amrediad o asiantaethau arbenigol er budd y disgyblion. Mae'r cysylltiadau gwerthfawr hyn yn sicrhau cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae strategaethau llwyddiannus a roddwyd ar waith wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, ymddygiad ac agwedd y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi datblygu'n fwy effeithiol yn ddiweddar. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion y disgyblion, gan gynnwys profion llythrennedd a rhifedd, ynghyd â'u barnau proffesiynol. Mae disgyblion, rhieni ac athrawon yn cydweithio'n briodol ar y cynlluniau addysg unigol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd y gweithdrefnau a roddir ar waith yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid oes gan yr ysgol ddarlun digon clir o'r cynnydd a wneir gan y disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chyfeillgar sy'n hybu ethos Cymreig, gofalgar a chynhwysol. Mae staff a disgyblion yn dangos parch naill at y llall a chonsyrn dros bawb. Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn effeithiol ac fel unigolion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn llwyddiannus ac yn herio stereoteipio mewn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau. Mae'r ysgol yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl.

Mae'r dosbarthiadau, y labordai a'r cyfleusterau cyffredinol yn cynnig amgylchedd gweithio deniadol. Mae ystod o adnoddau dysgu addas ac offer perthnasol ar gael i ddisgyblion ymhob adran. Mae'r ystafelloedd arbenigol ar gyfer pynciau megis cerddoriaeth, celf, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yn dda.

Mae'r safle'n ddiogel ac yn cael ei chynnal yn dda. Mae systemau mynediad diogel a chamerâu diogelwch i gefnogi diogelwch disgyblion, staff ac adnoddau yn briodol. Mae'r gampfa yn cael ei rhannu gan y bechgyn a'r merched, ac nid oes darpariaeth dan do swyddogol arall ar gael yn yr ysgol. O ganlyniad, nid yw adnoddau chwaraeon dan do yn addas ar gyfer y pwnc. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid mewn cyflwr digonol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir wedi ei seilio ar sicrhau'r cyflawniad a'r cyfleoedd gorau i bob disgybl, waeth beth fo'u cefndir, o fewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg. Caiff y weledigaeth hon ei chyfathrebu'n effeithiol gan yr uwch dîm arwain a'i choleddu gan holl staff yr ysgol.

Ers ei benodiad yn Ebrill 2016, mae'r pennaeth wedi gweithredu'n strategol i roi cyfeiriad clir a diamwys i'r ysgol. Mae hyn yn seiliedig ar flaenoriaethau addas a thargedau priodol. Yn sgil ailstrwythuro diweddar, mae cyfrifoldebau'r tîm arwain a holl staff yr ysgol yn gytbwys a chlir, ac yn diwallu anghenion yr ysgol yn dda. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnig cefnogaeth werthfawr i'r pennaeth ac yn cydweithio'n effeithiol.

Mae llawer o arweinwyr â dealltwriaeth drylwyr o ddata perfformiad ac yn gwneud defnydd cynyddol effeithiol o'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae gan lawer o arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o'r prif gryfderau a gwendidau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. O ganlyniad, maent yn blaenoriaethu ac yn cynllunio'n briodol. Mae arweinwyr canol wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr ar fedrau rheoli ac arwain ac maent yn cydweithio'n fuddiol i rannu arfer dda.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau a miniogi ei phrosesau atebolrwydd. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol trwy gyfres o weithgareddau monitro buddiol a chyfarfodydd rheolaidd. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau. Mae trefn benodol o bynciau trafod ar gyfer cyfarfodydd yn sicrhau ffocws cyson ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae cofnodion llawer o gyfarfodydd â phwyntiau gweithredu clir ac mae dilyniant amlwg o un cyfarfod i'r llall. Yn gyffredinol, maent yn canolbwyntio'n briodol ar faterion pwysig megis cynnydd disgyblion ac ansawdd dysgu ac addysgu ond nid oes digon o sylw i'r materion hyn mewn ychydig o gofnodion gan adrannau.

Mae arweinwyr wedi adnabod tanberfformiad a meysydd sydd angen eu gwella ac wedi ymateb yn addas. Mae trefn fuddiol o gefnogaeth ar gyfer staff sy'n tanberfformio.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth amlwg i flaenoriaethau cenedlaethol ac yn cydweithio'n egnïol ag ysgolion eraill o ran datblygiadau digidol a chwricwlaidd o dan faner ysgolion arloesol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac â dealltwriaeth gynyddol drwyadl o’i chryfderau a meysydd i’w gwella. O ganlyniad, maent yn cynnig her fuddiol i’r ysgol ar faterion pwysig megis safonau disgyblion a threfniadau cwricwlaidd. Maent yn ymroi’n frwdfrydig i waith yr ysgol trwy amrywiaeth o weithgareddau megis teithiau dysgu.

Mae arweinyddiaeth gadarn wedi arwain at welliannau o ran safonau hyd at 2015 ac mewn meysydd megis deilliannau disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim, ymddygiad a phresenoldeb. Serch hyn, ni chafodd arweinyddiaeth ddigon o effaith ar y safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion yn 2015-2016.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu a sicrhau gwelliant cadarn yn eu lle erbyn hyn. Serch hynny, hyd yma, nid yw’r trefniadau wedi cael digon o effaith ar gynnal safonau disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 2015-2016 nac ar berfformiad disgyblion mwy abl dros gyfnod hwy o amser.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu’r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sydd yn cynnig darlun gonest o’i pherfformiad cyfredol. Mae’r ysgol yn casglu ystod o dystiolaeth uniongyrchol, berthnasol trwy arsylwadau gwersi, chraffu ar waith disgyblion a holiaduron disgyblion a rhieni. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn monitro effeithiolrwydd ychydig o agweddau o’i gwaith yn ddigon trwyadl. Er enghraifft, trosolwg o’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a’r gweithgareddau yn y cyfnodau cofrestru.

Mae’r uwch dîm arwain yn cyflwyno adroddiadau defnyddiol i staff yn dilyn adolygiadau adrannol ffurfiol a’r cylch craffu ar lyfrau. Fodd bynnag, lleiafrif o arweinwyr yn unig sydd yn gwneud defnydd llawn o ganfyddiadau’r adroddiadau hyn er mwyn gwella agweddau penodol o ddysgu ac asesu yn yr ysgol.

Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannau a chynlluniau gwella yn canolbwyntio yn briodol ar godi safonau, cyrhaeddiad merched a chynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae arweinwyr yn monitro’r cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun gwella yn rheolaidd.

Ers 2016, mae’r defnydd o ddata perfformiad wedi cryfhau. Mae’r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn gwneud defnydd effeithiol o ddata perfformiad er mwyn adnabod cryfderau a mannau i ddatblygu. Yn fwy diweddar, mae’r dadansoddiad o berfformiad disgyblion mewn arholiadau wedi’i finiogi. Mae’r adrannau wedi rhoi cynlluniau addas ar waith i ddatblygu medrau arholiad y disgyblion. Erbyn hyn, mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth glir o berfformiad cyfredol yr ysgol a’r prif feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae cyswllt clir rhwng blaenoriaethau cynllun gwella’r ysgol a chanfyddiadau’r adroddiad hunanarfarnu. Mae’r cynllun yn canolbwyntio’n briodol ar godi safonau a chyrhaeddiad merched, gwella canlyniadau disgyblion mwy abl, hybu Cymreictod ac ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae’n cynnwys strategaethau a chamau gweithredu priodol er mwyn gwella ac mae wedi ei gostio yn ofalus. Mae’r ysgol, erbyn hyn, yn ymateb yn amserol i feysydd penodol sydd angen sylw. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi rhoi cynllun ffurfiol yn ei le i ddatrys y diffyg yn y

gyllideb a gwella ansawdd darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yr ysgol yn monitro'r cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun gwella trwy gyfarfodydd rheoli llinell ffurfiol a defnyddiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang iawn o bartneriaethau buddiol sy'n cyfrannu at ehangu profiadau dysgu'r disgyblion a darparu datblygiad proffesiynol gwerthfawr i staff.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol gyda rhieni. Mae'n cyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol trwy nosweithiau agored, defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau cynnydd tymhorol. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni ar waith yr ysgol trwy holiaduron pwrpasol.

Mae trefniadau trosglwyddo cadarn iawn yn eu lle gyda'r ysgolion cynradd sydd yn bwydo'r ysgol. Mae disgyblion a rhieni Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn elwa o ymweliadau a gweithgareddau cyson fel rhan o'r cynllun trosglwyddo. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion cynradd hyn er mwyn sicrhau dilyniant yn yr addysgu rhwng diwedd cyfnod allweddol 2 a dechrau cyfnod allweddol 3. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau cysondeb i ddisgyblion ac yn eu helpu i ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae hon yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Mae'r bartneriaeth gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal yn cyfrannu at ehangu'r opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol hefyd yn arwain partneriaeth gynhyrchiol gyda chlwstwr o ysgolion cyfrwng Saesneg, ffydd ac arbennig ar draws y consortiwm addysg. Mae hyn wedi arwain at hyfforddiant gwerthfawr i athrawon ac arweinwyr a rhannu arfer dda ac arbenigedd ar faterion cwricwlaidd, lles ac arweinyddiaeth.

Mae'r gan yr ysgol drefniadau cadarn er mwyn sicrhau ansawdd yr holl waith partneriaethol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol yn arwain partneriaeth flaengar ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal er mwyn darparu ystod o gyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr i staff trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, mae cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso, hyfforddiant pynciol penodol a hyfforddiant i athrawon sydd yn dysgu tu allan i'w maes arbenigol. Mae hyn yn bodloni anghenion hyfforddiant lleol yn effeithiol ac yn cyfrannu at ddatblygu arbenigedd staff o fewn y sector uwchradd Cymraeg ac yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y bartneriaeth arloesol hon ar godi safonau a lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dysgu o fewn eu meysydd arbenigol. Mae cefnogaeth fuddiol i'r ychydig staff nad ydynt yn addysgu eu pwnc arbenigol. Mae tîm o staff ategol yn darparu cefnogaeth werthfawr i waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr. Mae'r rhaglen yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant gwerthfawr sydd yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion unigolion ac adrannau. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant cyson ar agweddau o ddysgu ac addysgu ac arweiniad defnyddiol ar fedrau arwain a rheoli.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer rheoli perfformiad sydd, erbyn hyn, yn cynnwys holl staff yr ysgol. Mae'r rhain wedi eu miniogi yn ddiweddar a bellach, mae’r rhan fwyaf o dargedau yn finiog ac yn drwyadl. Mae cysylltiadau clir rhwng y drefn rheoli perfformiad a’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Ers ei benodiad, mae’r pennaeth wedi gweithredu’n gadarn i wella sefyllfa ariannol yr ysgol. Erbyn hyn, caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli’n effeithiol gan y pennaeth a’i monitro’n gynyddol drwyadl gan y llywodraethwyr. Mae cynlluniau manwl a chlir ar gyfer gwaredu’r ddyled sylweddol sydd gan yr ysgol ar hyn o bryd. Mae’r awdurdod lleol wedi cytuno ar y cynlluniau hyn. Mae’r pennaeth wedi cyflwyno nifer o newidiadau sydd wedi arbed arian i’r ysgol ond hefyd wedi galluogi’r ysgol i weithredu’n fwy effeithlon.

